

torri syst/briw/lipoma

Ôl-ofal:

- Cadwch y gorchudd ymlaen am o leiaf 48 awr.
- Ceisiwch gadw'r ardal yn lân ac yn sych am yr wythnos nesaf tra bod yr ardal yn gwella.
- **Pwythau hydawdd:** bydd y rhain yn hydoddi ar eu pennau eu hunain dros yr wythnosau nesaf.
- **Pwythau anhydawdd:** Mae angen tynnu'r rhain yn eich meddygfa o fewn 7-10 diwrnod oni bai eich bod yn cael cyngor gwahanol.
- **Glud:** Bydd hyn yn dechrau dod i ffwrdd ymhen 5-10 diwrnod. Efallai y bydd yn pilio a disgyn i ffwrdd – mae hyn yn normal.
- Os bydd y llawfeddyg yn penderfynu anfon eich sbesimen i ffwrdd i'w brofi, dylech glywed am eich canlyniadau o fewn 6 wythnos – gofynnwch i'ch nyrs a yw hyn yn berthnasol i chi.
 - Os nad ydych wedi clywed ar ôl 6 wythnos, cysylltwch ag ysgrifennydd ENT eich llawfeddyg yn Ysbyty Athrofaol Cymru drwy'r switsfwrdd – 02920 747 747.

Pethau i'w hosgoi:

- Tynnu'r gorchudd yn ystod y 48 awr gyntaf.
- Ymdrochi mewn dŵr (bath, nofio, jacuzzi) am bythefnos tra bod y clwyf yn gwella.
- Defnyddio pethau ymolchi persawrus – dabiwch yr ardal yn lân â dŵr – peidiwch â rhwbio.

Cysylltwch â'ch meddyg teulu, 111 neu'r hwb lawfeddygol os oes gennych:

- Dymheredd uchel.
- Chwydd neu gochni dros, neu o amgylch y clwyf.
- Rhedlif o'r clwyf.
- Bydd gennych chi lawer iawn o waedu o'r ardal.

Rhifau cyswllt

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:

Ystafell 9 Cleifion Allanol ENT (Llun-Gwener 9am-5pm) – **02921 843174**
Hwb Llawfeddygol (Llun-Gwener 7am- 7pm): **02921 826510 neu 02921 826348**

